TORFAEN COUNTY BOROUGH
BWRDEISTREF SIROL TORFAEN

# Cynllun Gwella Addysg (CGA)

## Ebrill 2026 - Mawrth 2027

# Cynllun Gwella Gwasanaeth Addysg Torfaen Ebrill 26 – Mawrth 27

**Cyflwyniad**

Yr argymhellion o'r arolygiad Mawrth 2022 oedd:

**A1 Gwella deilliannau i ddysgwyr, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd**
**A2 Cryfhau rheoli perfformiad**
**A3 Cryfhau prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant a'r cysylltiad rhyngddynt**
**A4 Gwella arweinyddiaeth strategol dysgu ac Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)**

**Amcanion Y Gwasanaeth Addysg**
Mae'r cynllun gweithredu hwn wedi'i fframio o dan chwe amcan gwasanaeth sy'n cyd-fynd ag argymhellion arolygiad Estyn a'r blaenoriaethau llesiant a nodir yng nghynllun y sir. Y chwe amcan yw:

- **Amcan 1 –** Gwella deilliannau dysgwyr, yn enwedig mewn llythrennedd a rhifedd, a lleihau'r bwlch cyrhaeddiad ar gyfer dysgwyr agored i niwed a dan anfantais
- **Amcan 2 –** Sicrhau darpariaeth arbenigol, wedi'i thargedu'n effeithiol ar gyfer dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol
- **Amcan 3 –** Hyrwyddo llesiant dysgwyr a hwyluso ymgysylltu cymunedol
- **Amcan 4 –** Datblygu llwybrau dilyniant dysgwyr i annog dysgu gydol oes
- **Amcan 5 –** Hyrwyddo llesiant staff
- **Amcan 6** – Datblygu'r amgylchedd ffisegol a digidol ar gyfer dysgu

Mae'r amcanion, a'r camau gweithredu cysylltiedig, wedi'u datblygu i adlewyrchu dimensiynau sefydliad dysgu (Ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu (SLO) - Hwb):

- Gweledigaeth a rennir: mae arweinwyr yn cynnwys cymuned yr ysgol gyfan i ddatblygu gweledigaeth gynhwysol a rennir, sy'n ysbrydoli ac sy'n ceisio gwella profiadau dysgu a deilliannau pob dysgwr.
- Dysgu parhaus: mae ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu yn datblygu 'diwylliant dysgu' sy'n sicrhau bod amser ac adnoddau yn cael eu rhoi i'r holl staff ymroi i ddysgu proffesiynol. Mae'r staff yn nodi eu blaenoriaethau eu hunain ar gyfer eu datblygiad proffesiynol, sydd yn ei dro yn cefnogi nodau'r ysgol neu'r lleoliad.
- Dysgu a chydweithio: mae staff yn ystyried ac yn gwerthuso arferion gyda'i gilydd. Mae'r ysgolion yn creu cyfleoedd i staff gydweithio ac archwilio arferion addysgegol gyda'i gilydd.
- Cyfnewid gwybodaeth: mae staff yn trafod ac yn gwerthuso'n rheolaidd a yw'r camau a gymerwyd, gan gynnwys y dysgu proffesiynol, wedi cael yr effaith a ddymunir ac maent yn gweithio gyda'i gilydd, gan gyfeirio at dystiolaeth ymchwil pan fo'n briodol, i wella arferion.

- Amgylchedd allanol: datblygu partneriaethau â rhieni/gofalwyr, ysgolion eraill, prifysgolion, busnesau, sefydliadau cyhoeddus, a'r gymuned i ymateb i newid a datblygu cyfleoedd dysgu ar y cyd.
- Arweinyddiaeth ym maes dysgu: mae arweinwyr yn modelu arweinyddiaeth ym maes dysgu, ac yn sicrhau bod gan yr holl staff fynediad at gyfleoedd dysgu cydweithredol cryf.

**Cynllun Sirol 2022-2027**

Mae Egwyddorion Marmot yn sail i'r cynllun sirol, ac mae manylion amdanynt ar gael yma: Cyngor Marmot | Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Mae'r cynllun hwn hefyd yn cyd-fynd â 'Y Fargen Torfaen', ac mae manylion amdani ar gael yma: Y Fargen Torfaen | Cymryd Rhan Torfaen

Mae cynlluniau timau o fewn y Gwasanaethau Addysg yn cyd-fynd ag amcanion a chanlyniadau allweddol y Cynllun Sirol ac yn adlewyrchu gweithgareddau allweddol sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Gweithredu Ôl-Arolwg hwn. Mae'r Cynllun Sirol ar gael trwy'r hyperddolen ganlynol: https://www.torfaen.gov.uk/en/AboutTheCouncil/ImprovingTorfaen/County-Plan/County-Plan-2022-2027.aspx

Naw amcan llesiant y Cynllun Sirol yw:

- Amcan Llesiant 1 - Byddwn yn codi cyrhaeddiad addysgol, gan helpu pobl ifanc ac oedolion i ennill y cymwysterau a'r sgiliau sydd eu hangen i fyw bywydau cadarnhaol
- Amcan Llesiant 2 - Byddwn yn annog ac yn hyrwyddo plant, pobl ifanc a theuluoedd fel y gallant ffynnu
- Amcan Llesiant 3 - Byddwn yn mynd i'r afael ag anghydraddoldeb trwy ganolbwyntio ar weithgareddau adnabod ac atal cynnar sy'n cefnogi pobl i fyw bywydau annibynnol a boddhaus
- Amcan Llesiant 4 - Byddwn yn gwneud Torfaen yn fwy cynaliadwy trwy gysylltu pobl a chymunedau, yn gymdeithasol, yn ddigidol ac yn ffisegol
- Amcan Llesiant 5 - Byddwn yn mynd i'r afael â'n hargyfyngau hinsawdd a natur, yn ailgylchu mwy ac yn gwneud gwelliannau i'r amgylchedd lleol
- Amcan Llesiant 6 - Byddwn yn gwneud Torfaen yn lle gwych i gynnal busnes trwy weithio gyda chyflogwyr lleol, gan annog busnesau sydd newydd ddechrau a gweithgareddau entrepreneuraidd
- Amcan Llesiant 7 - Byddwn yn hyrwyddo ffyrdd iachach o fyw yn Nhorfaen i wella llesiant meddyliol a chorfforol
- Amcan Llesiant 8 - Byddwn yn cefnogi ein diwylliant a'n treftadaeth leol ac yn gwneud Torfaen yn lle ffyniannus, diogel a deniadol i fyw ac ymweld
- Amcan Llesiant 9 - Byddwn yn darparu gwasanaethau effeithlon sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid sy'n adlewyrchu'r ffordd y mae pobl yn byw eu bywydau ac yn dymuno cael mynediad at wasanaethau

| **Amcan 1: Gwella deilliannau dysgwyr, yn enwedig mewn llythrennedd a rhifedd, a lleihau'r bwlch cyrhaeddiad ar gyfer dysgwyr agored i niwed a dan anfantais** |
|---|
| **Argymhelliad Estyn 1: Gwella deilliannau dysgwyr, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd** |
| **Cyswllt â'r Cynllun Sirol:**<br>Amcan Llesiant 1 - Byddwn yn codi cyrhaeddiad addysgol, gan helpu pobl ifanc ac oedolion i ennill y cymwysterau a'r sgiliau sydd eu hangen i fyw bywydau Cadarnhaol<br>Amcan Llesiant 2 - Byddwn yn annog ac yn hyrwyddo plant, pobl ifanc a theuluoedd fel y gallant ffynnu |

| **Nodiadau datblygu Estyn (o Hydref 24):** | **Arweinydd Amcan:** |
|---|---|
| • mae presenoldeb yn Nhorfaen yn is nag yr oedd cyn y pandemig, fel y mae'n genedlaethol.<br>• mae cyfraddau gwahardd yn parhau i fod yn rhy uchel, yn enwedig mewn ychydig o ysgolion uwchradd<br>• mewn ychydig o achosion, mae trosolwg o gefnogaeth i ysgolion yn rhy gadarnhaol ynglŷn â'r cynnydd y mae ysgolion wedi'i wneud | Pennaeth Dysgu a Chyflawniad, Andy Rothwell<br><br>**Tystiolaeth:**<br>• Cyfarfodydd Monitro Grŵp Gwella Parhaus (GGP) gyda'r Aelod Gweithredol a'r Prif Weithredwr gyda'r Tîm Arwain Addysg (TAA) a'r Gwasanaeth Gwella Ysgolion<br>• Cyfarfodydd Partneriaeth misol gyda'r ALl a'r Gwasanaeth Gwella Ysgolion<br>• Cofnodion a chanlyniadau cyfarfodydd Grŵp Ehangach<br>• Adroddiadau effaith tymhorol y Gwasanaeth Gwella Ysgolion<br>• Agendâu a phwyntiau gweithredu cyfarfodydd Tîm Arwain Gweithredol a Thîm Arwain Gweithredol Estynedig bob hanner tymor<br>• Canlyniadau arolygiad (wrth iddynt ddod ar gael) o'u cymharu ag adroddiadau cyn-arolygiad y Gwasanaeth Gwella Ysgolion / yr ALl<br>• Cerdyn Sgorio Cytbwys Arweinyddiaeth Gorfforaethol – adroddiad y Gwasanaeth Addysg |

| Amcan 1: Gwella deilliannau dysgwyr, yn enwedig mewn llythrennedd a rhifedd, a lleihau'r bwlch cyrhaeddiad ar gyfer dysgwyr agored i niwed a dan anfantais | | | |
|---|---|---|---|
| **Argymhelliad 1: Gwella deilliannau dysgwyr, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd** | | | |
| **Cyswllt â'r Cynllun Sirol:**<br>Amcan Llesiant 1 - Byddwn yn codi cyrhaeddiad addysgol, gan helpu pobl ifanc ac oedolion i ennill y cymwysterau a'r sgiliau sydd eu hangen i fyw bywydau cadarnhaol<br>Amcan Llesiant 2 - Byddwn yn annog ac yn hyrwyddo plant, pobl ifanc a theuluoedd fel y gallant ffynnu | | | |
| **Cysylltiadau â Chynlluniau Tîm:**<br>• Holl gynlluniau Tîm Y Gwasanaeth Addysg | | | |
| **Strategaeth** | **Swyddog Arweiniol** | **Meini prawf llwyddiant / yr effaith a fwriedir** | **Adnoddau sydd eu hangen** |
| 1.1<br>Mireinio trosolwg strategol yr ALl a'i effaith ar berfformiad ysgolion, gyda ffocws penodol ar flaenoriaethau cenedlaethol. | Pennaeth Dysgu a Chyflawniad | • Mae meintioli adolygiadau thematig yn dangos gwelliannau yn effaith addysgu a dysgu ac arweinyddiaeth yn y rhan fwyaf o ysgolion e.e. datblygu dysgu annibynnol<br>• Mae canlyniadau arholiadau dysgwyr yn unol â, neu'n well na, disgwyliadau wedi'u modelu h.y. Llythrennedd; Rhifedd; Gwyddoniaeth<br>• Mae data Grŵp Ehangach/Map Lliwiau o ofynion cymorth ysgolion yn dangos gwelliant cadarnhaol mewn perfformiad ar draws pob agwedd a ystyriwyd e.e. gwaharddiadau, presenoldeb, ansawdd addysgu a dysgu, cynllunio gwerthuso a gwella, cyllid, cyfraddau absenoldeb staff. | Amser Swyddog – capasiti ychwanegol ar waith nawr. |
| **Camau Gweithredu Allweddol** | **Arweinydd** | **Cychwyn** | **Gorffen** |
| 1.1.1<br>Mae cyfarfodydd misol yr ALl/Gwasanaeth Gwella Ysgolion yr ALl yn cydlynu cefnogaeth i ysgolion, yn | Pennaeth Dysgu a Chyflawniad | Ebrill 26 (Misol) | Mawrth 27 |

| Amcan 1: Gwella deilliannau dysgwyr, yn enwedig mewn llythrennedd a rhifedd, a lleihau'r bwlch cyrhaeddiad ar gyfer dysgwyr agored i niwed a dan anfantais | | | |
|---|---|---|---|
| **Argymhelliad 1: Gwella deilliannau dysgwyr, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd** | | | |
| nodi ac yn mynd i'r afael â materion sy'n datblygu - mae pob cam gweithredu wedi'i ddogfennu'n glir, ei gyflawni a chaiff partneriaid eu dwyn i gyfrif. | | | |
| 1.1.2<br>Mae Adolygiadau Thematig Torfaen yn sefydlu cryfderau a meysydd datblygu addysgu a dysgu ar draws Ysgolion Torfaen, gyda ffocws penodol ar flaenoriaethau cenedlaethol ac argymhellion Estyn e.e. dysgu annibynnol. | Pennaeth Dysgu a Chyflawniad | Ebrill 26 (Tymhorol) | Mawrth 27 |
| 1.1.3<br>Mae dadansoddiad o ganlyniadau arholiadau Torfaen yn cael eu rhannu a'u trafod gyda phenaethiaid ysgolion uwchradd i nodi themâu a galluogi cynllunio gwelliant ar y cyd. | Pennaeth Dysgu a Chyflawniad | Awst 26 | Ionawr 27 |
| **Strategaeth** | **Swyddog Arweiniol** | **Meini prawf llwyddiant / yr effaith a fwriedir** | **Adnoddau sydd eu hangen** |
| 1.2<br>Galluogi arweinyddiaeth a llywodraethu effeithiol yn Ysgolion Torfaen. | Pennaeth Dysgu a Chyflawniad | • Ychydig iawn o swyddi gwag llywodraethwyr sydd ac eir i'r afael â hyn yn gyflym<br>• Mae llywodraethwyr yn cymryd rhan mewn dysgu proffesiynol priodol | Amser Swyddog |

| Amcan 1: Gwella deilliannau dysgwyr, yn enwedig mewn llythrennedd a rhifedd, a lleihau'r bwlch cyrhaeddiad ar gyfer dysgwyr agored i niwed a dan anfantais | | | |
|---|---|---|---|
| **Argymhelliad 1: Gwella deilliannau dysgwyr, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd** | | | |
| | | • Mae adroddiadau penaethiaid i lywodraethwyr yn bodloni gofynion statudol<br>• Mae cofnodion y corff llywodraethu yn dangos cefnogaeth a her effeithiol<br>• Mae cyllidebau a grantiau ysgolion unigol dirprwyedig yn cael eu rheoli'n effeithiol<br>• Mae pob Cynllun Datblygu Ysgol (CDY) yn bodloni gofynion statudol. | |
| **Camau Gweithredu Allweddol** | **Arweinydd** | **Cychwyn** | **Gorffen** |
| 1.2.1<br>Cydlynu a chyhoeddi briffiau ALl o leiaf yn flynyddol i bob llywodraethwr yn tynnu sylw at faterion/camau gweithredu allweddol ar gyfer ysgolion/ALl. | Pennaeth Dysgu a Chyflawniad | Ebrill 26 (Adolygiad Tymhorol) | Mawrth 27 |
| 1.2.2<br>Cynhelir Trafodaethau Proffesiynol CDY, wedi'u llywio gan weithgarwch hunanwerthuso a gefnogir gan y Cynllun Gwella Ysgolion a data'r Grŵp Ehangach, o leiaf yn flynyddol ym mhob ysgol yn Nhorfaen. | Pennaeth Dysgu a Chyflawniad<br><br>Prif Bartner Gwella Ysgolion (PBGY) | Ebrill 26 | Mawrth 27 |
| 1.2.3<br>Mae rhaglen dysgu proffesiynol llywodraethwyr ALl Torfaen yn cael ei chydlynu, ei chyflwyno a'i gwerthuso bob tymor. | Pennaeth Dysgu a Chyflawniad | Ebrill 26 (Tymhorol) | Mawrth 27 |
| 1.2.4 | Pennaeth Dysgu a Chyflawniad | Tymor yr Hydref 2026 | Mawrth 27 |

| **Amcan 1: Gwella deilliannau dysgwyr, yn enwedig mewn llythrennedd a rhifedd, a lleihau'r bwlch cyrhaeddiad ar gyfer dysgwyr agored i niwed a dan anfantais** | | | |
|---|---|---|---|
| **Argymhelliad 1: Gwella deilliannau dysgwyr, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd** | | | |
| Mae digwyddiadau rhwydweithio a dysgu proffesiynol Llywodraethwyr yr ALl yn digwydd yn flynyddol, yn ogystal â chyfarfodydd tymhorol Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgol Torfaen (TASG). | | | |
| 1.2.5<br>Gwella goruchwyliaeth llywodraethu ysgolion drwy samplu cofnodion y corff llywodraethu bob tymor ar hap; monitro swyddi gwag llywodraethwyr; a monitro cydymffurfiaeth â hyfforddiant statudol llywodraethwyr. | Pennaeth Dysgu a Chyflawniad<br><br>Prif Bartner Gwella Ysgolion (PBGY) | Ebrill 26 (Tymhorol) | Mawrth 27 |
| 1.2.6<br>Datblygu rhwydwaith DB ar lefel yr ALl i gefnogi cynllunio olyniaeth. Monitro effaith sesiynau. | Pennaeth Dysgu a Chyflawniad | Mai 26 | Mawrth 27 |
| 1.2.7<br>Datblygu cyfeiriadur polisi ysgol gyda thempledi dogfennau cysylltiedig a strwythur pwyllgor llywodraethwyr awgrymedig wedi'i alinio. | Cyfarwyddwr Addysg<br><br>Pennaeth Dysgu a Chyflawniad | Ionawr 26 | Medi 26 |
| **Strategaeth** | **Swyddog Arweiniol** | **Meini prawf llwyddiant / yr effaith a fwriedir** | **Adnoddau sydd eu hangen** |
| 1.3<br>Datblygu gweithio fertigol a llorweddol ar draws Ysgolion Torfaen. | Cyfarwyddwr Addysg | • Mae sgoriau cymorth Grŵp Ehangach/Map Lliwiau yn dangos gwelliant cadarnhaol mewn perfformiad ar draws pob maes a ystyriwyd. | |
| **Camau Gweithredu Allweddol** | **Arweinydd** | **Cychwyn** | **Gorffen** |

| Amcan 1: Gwella deilliannau dysgwyr, yn enwedig mewn llythrennedd a rhifedd, a lleihau'r bwlch cyrhaeddiad ar gyfer dysgwyr agored i niwed a dan anfantais | | | |
|---|---|---|---|
| **Argymhelliad 1: Gwella deilliannau dysgwyr, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd** | | | |
| 1.3.1<br>Rhannu mapiau lliwiau ysgolion unigol gydag arweinwyr ysgolion bob tymor gyda thrafodaethau dilynol drwy drafodaethau proffesiynol Cynllun Datblygu Ysgol/cyfarfodydd Tîm o Amgylch yr Ysgol. | Swyddog Gwerthuso a Gwella | Medi 2026 | Tymhorol |
| 1.3.2<br>Datblygu cydweithio rhwng cymheiriaid a her broffesiynol ar gyfer ysgolion unigol, clystyrau a ledled y fwrdeistref – cydweithio llorweddol a fertigol. | Cyfarwyddwr Addysg<br>Pennaeth Dysgu a Chyflawniad<br>Pennaeth ADY, Cynhwysiant a Llesiant<br>Pennaeth Adnoddau a Chynllunio | Ebrill 26 | Mawrth 27 |
| 1.3.3<br>Hwyluso cyfleoedd dysgu proffesiynol a rennir ar gyfer staff yr ALl a staff ysgol. | Cyfarwyddwr Addysg | Ebrill 25 | Mawrth 26 |
| **Strategaeth** | **Swyddog Arweiniol** | **Meini prawf llwyddiant / yr effaith a fwriedir** | **Adnoddau sydd eu hangen** |
| 1.4<br>Gwella ysgolion mewn categorïau statudol ac ysgolion sy'n peri pryder. | Cyfarwyddwr Addysg | • Mae ysgolion wedi gwneud cynnydd amlwg yn erbyn holl argymhellion Estyn; argymhellion adolygu'r ALl a gofynion hysbysiad rhybuddio<br>• Mae cyllidebau dirprwyedig yn cael eu rheoli'n effeithiol<br>• Mae gweithgaredd hunanarfarnu â chymorth yn dangos bod arweinwyr wedi cael effaith sylweddol ar wella | Amser Swyddog |

| Amcan 1: Gwella deilliannau dysgwyr, yn enwedig mewn llythrennedd a rhifedd, a lleihau'r bwlch cyrhaeddiad ar gyfer dysgwyr agored i niwed a dan anfantais | | | |
|---|---|---|---|
| **Argymhelliad 1: Gwella deilliannau dysgwyr, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd** | | | |
| | | effeithiolrwydd addysgu a phrosesau hunanarfarnu/gwella ansawdd - mae'r rhain yn cael eu cymhwyso'n gyson. | |
| **Camau Gweithredu Allweddol** | **Arweinydd** | **Cychwyn** | **Gorffen** |
| 1.4.1<br>Cynhelir cyfarfodydd Amlasiantaeth/Tîm o Amgylch yr Ysgol (TAS) ar gyfer ysgolion sy'n achosi pryder bob hanner tymor i adolygu cynnydd yn erbyn y Cynllun Gweithredu Ôl-Arolygiad/Cynllun Datblygu Ysgol (CDY).<br><br>Mireinio cymorth i ysgolion mewn categorïau statudol gan ddefnyddio canfyddiadau o gyfarfodydd bob hanner tymor. | Cyfarwyddwr Addysg<br><br>Pennaeth Dysgu a Chyflawniad | Ebrill 26 (Bob hanner tymor) | Mawrth 27 |
| 1.4.2<br>Monitro cyllidebau ysgolion yn rheolaidd ymlaen llaw i leihau'r risg o ddiffygion a darparu cefnogaeth i adfer diffygion, lle bo angen. | Pennaeth Adnoddau a Chynllunio<br><br>Uwch Bartner Cyllid Addysg | Ebrill 26<br><br>(Chwarterol) | Mawrth 27 |

| **Amcan 2: Sicrhau darpariaeth arbenigol ac effeithiol wedi'i thargedu ar gyfer dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol** |
|---|
| **Argymhelliad 4: Gwella arweinyddiaeth strategol dysgu ac ADY** |
| **Cyswllt â'r Cynllun Sirol:**<br>Amcan Llesiant 1 - Byddwn yn codi cyrhaeddiad addysgol, gan helpu pobl ifanc ac oedolion i ennill y cymwysterau a'r sgiliau sydd eu hangen i fyw bywydau cadarnhaol<br>Amcan Llesiant 2 - Byddwn yn annog ac yn hyrwyddo plant, pobl ifanc a theuluoedd fel y gallant ffynnu<br>Amcan Llesiant 3 - Byddwn yn mynd i'r afael ag anghydraddoldeb trwy ganolbwyntio ar weithgareddau adnabod ac atal cynnar sy'n cefnogi pobl i fyw bywydau annibynnol a boddhaus<br>Amcan Llesiant 7 - Byddwn yn hyrwyddo ffyrdd iachach o fyw yn Nhorfaen i wella llesiant meddyliol a chorfforol<br>Amcan Llesiant 9 - Byddwn yn darparu gwasanaethau effeithlon sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid sy'n adlewyrchu'r ffordd y mae pobl yn byw eu bywydau ac yn dymuno cael mynediad at wasanaethau |

| **Arsylwadau Estyn (o Hydref 24):** | **Arweinydd Amcan:**<br>Pennaeth ADY, Cynhwysiant a Llesiant, Claire Williams |
|---|---|
| • Ar adegau mae'r capasiti ar draws y timau yn cyfyngu ar gwmpas y gefnogaeth a'r arweiniad y gall yr Awdurdod Lleol ei ddarparu i bob lleoliad, ysgolion a'r Uned Cyfeirio Disgyblion. | **Tystiolaeth:**<br>• Cyfarfodydd Monitro Partneriaeth Misol Grŵp Gwella Parhaus (GGC) gyda'r ALl a'r Gwasanaeth Gwella Ysgolion<br>• Cofnodion a chanlyniadau Cyfarfodydd Grŵp Ehangach<br>• Adroddiadau effaith tymhorol y Gwasanaeth Gwella Ysgolion<br>• Tîm Arwain Gweithredol ac agendâu a phwyntiau gweithredu cyfarfodydd Tîm Arwain Gweithredol bob hanner tymor<br>• Canlyniadau arolygiad (wrth iddynt ddod ar gael) o'u cymharu ag adroddiadau cyn yr arolygiad<br>• Cerdyn Sgorio Cytbwys Arweinyddiaeth Gorfforaethol – adroddiad Y Gwasanaeth Addysg. |

| Amcan 2 – Sicrhau darpariaeth arbenigol, wedi'i thargedu'n effeithiol ar gyfer dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol | | | |
|---|---|---|---|
| **Argymhelliad 4: Gwella arweinyddiaeth strategol dysgu ac ADY** | | | |
| **Cyswllt â'r Cynllun Sirol:**<br>Amcan Llesiant 1 - Byddwn yn codi cyrhaeddiad addysgol, gan helpu pobl ifanc ac oedolion i ennill y cymwysterau a'r sgiliau sydd eu hangen i fyw bywydau cadarnhaol<br>Amcan Llesiant 2 - Byddwn yn annog ac yn hyrwyddo plant, pobl ifanc a theuluoedd fel y gallant ffynnu<br>Amcan Llesiant 3 - Byddwn yn mynd i'r afael ag anghydraddoldeb trwy ganolbwyntio ar weithgareddau adnabod ac atal cynnar sy'n cefnogi pobl i fyw bywydau annibynnol a boddhaus<br>Amcan Llesiant 7 - Byddwn yn hyrwyddo ffyrdd iachach o fyw yn Nhorfaen i wella llesiant meddyliol a chorfforol.<br>Amcan Llesiant 9 - Byddwn yn darparu gwasanaethau effeithlon sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid sy'n adlewyrchu'r ffordd y mae pobl yn byw eu bywydau ac yn dymuno cael mynediad at wasanaethau | | | |
| **Cysylltiadau â Chynlluniau Tîm:**<br>Dolenni i Gynlluniau Tîm:<br>Pennaeth Dysgu a Chyflawniad – Cynllun Gwella Ysgol<br>Cynllun Tîm ADY, Cynhwysiant a Llesiant<br>Cynllun Gwasanaeth Cymorth Synhwyraidd a Chyfathrebu (SenCom)<br>Cynllun Tîm y Blynyddoedd Cynnar<br>Gwasanaeth Ieuenctid | | | |
| **Strategaeth** | **Swyddog Arweiniol** | **Meini prawf llwyddiant / yr effaith a fwriedir** | **Adnoddau sydd eu hangen** |
| 2.1<br>Cadw golwg ar y ddarpariaeth leol a'r ddarpariaeth y tu allan i'r sir i sicrhau ei bod yn diwallu anghenion dysgwyr Torfaen. | Pennaeth ADY, Cynhwysiant a Llesiant | • Mae darpariaeth dargedig ac arbenigol yn unol â'r galw/anghenion<br>• Mae gan ddysgwyr fynediad cynyddol at ddarpariaeth arbenigol leol lle bo modd<br>• Mae cynnydd dysgwyr ADY unigol o'u llinell sylfaen yn cyd-fynd â disgwyliadau'r ALl/ysgol. | Amser Swyddog |
| **Cam Gweithredu** | **Arweinydd** | **Cychwyn** | **Gorffen** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Amcan 2 – Sicrhau darpariaeth arbenigol, wedi'i thargedu'n effeithiol ar gyfer dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol** | | | |
| **Argymhelliad 4: Gwella arweinyddiaeth strategol dysgu ac ADY** | | | |
| 2.1.1<br>Monitro a gwerthuso deilliannau i ddysgwyr mewn Canolfannau Adnoddau Dysgu mewn cydweithrediad ag ysgolion yn flynyddol trwy adolygiadau Canolfan Adnoddau Dysgu. | Pennaeth ADY, Cynhwysiant a Llesiant | Mai 26<br>(Yn flynyddol) | Mehefin 26 |
| 2.1.2<br>Mapio a sicrhau ansawdd darparwyr amgen/arbenigol mewn cydweithrediad ag ysgolion ac Awdurdodau Lleol cyfagos. | Pennaeth ADY, Cynhwysiant a Llesiant | Ebrill 26 | Mawrth 27 |
| 2.1.3<br>Dadansoddi tueddiadau data a chreu rhagamcan o'r angen am ADY i lywio cynllunio darpariaeth, gan gynnwys comisiynu ar y cyd o ddarpariaeth amgen. | Pennaeth ADY, Cynhwysiant a Llesiant | Ebrill 26 | Mawrth 27 |
| 2.1.4<br>Addasu capasiti darpariaeth arbenigol i ddiwallu anghenion lleol. Sefydlu Darpariaeth ADY Cyfrwng Cymraeg. | Pennaeth ADY, Cynhwysiant a Llesiant | Medi 26 | Mawrth 27 |
| **Strategaeth** | **Swyddog Arweiniol** | **Meini prawf llwyddiant / yr effaith a fwriedir** | **Adnoddau sydd eu hangen** |
| 2.2<br>Ymgorffori arferion partneriaeth amlasiantaeth ADY. | Pennaeth ADY, Cynhwysiant a Llesiant | • Gwella'r ddarpariaeth o fewn y sir i leihau nifer y lleoliadau arbenigol y tu allan i'r sir | Amser Swyddog |

| **Amcan 2 – Sicrhau darpariaeth arbenigol, wedi'i thargedu'n effeithiol ar gyfer dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol** | | | |
|---|---|---|---|
| **Argymhelliad 4: Gwella arweinyddiaeth strategol dysgu ac ADY** | | | |
| | | • Mae llais y disgybl a dulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn wedi'u hymgorffori yn yr holl gynllunio<br>• Mae nifer y dysgwyr ar ddiwrnodau wedi'u haddasu yn fach iawn, ac mae'r holl ddiwrnodau wedi'u haddasu yn cael eu monitro a'u cytuno'n effeithiol gyda'r ALl, lle bo'n briodol, gan effeithio'n gadarnhaol ar ganlyniadau a lles disgyblion<br>• Cynyddu'r amser a dreulir mewn darpariaeth dan oruchwyliaeth i'r dysgwyr hynny ar ddiwrnodau wedi'u haddasu<br>• Lleihau digwyddiadau a dyddiau a gollir oherwydd gwaharddiadau<br>• Nid yw dysgwyr dan anfantais ac agored i niwed yn cael eu hadlewyrchu'n anghymesur mewn absenoldebau o ysgolion/gwaharddiadau. | |
| **Cam Gweithredu** | **Arweinydd** | **Cychwyn** | **Gorffen** |
| 2.2.1<br>Cadw darpariaeth SenCom dan adolygiad mewn cydweithrediad â phartneriaid rhanbarthol i sicrhau gwerth am arian a'r canlyniadau gorau i ddysgwyr. | Pennaeth ADY, Cynhwysiant a Llesiant<br><br>Pennaeth SenCom | Ebrill 26 | Medi 26 |
| 2.2.2<br>Ymgysylltu'n effeithiol â sefydliadau statudol (iechyd a gofal cymdeithasol) a gwirfoddol. | Pennaeth ADY, Cynhwysiant a Llesiant | Ebrill 26 | Mawrth 27 |

| Amcan 2 – Sicrhau darpariaeth arbenigol, wedi'i thargedu'n effeithiol ar gyfer dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol | | | |
|---|---|---|---|
| **Argymhelliad 4: Gwella arweinyddiaeth strategol dysgu ac ADY** | | | |
| **Strategaeth** | **Swyddog Arweiniol** | **Meini prawf llwyddiant / yr effaith a fwriedir** | **Adnoddau sydd eu hangen** |
| 2.3<br>Ymgorffori rôl y Tîm Ymgynghorol ADY. | Pennaeth ADY, Cynhwysiant a Llesiant | • Trefniadau pontio cadarn ar gyfer dysgwyr ar bwyntiau allweddol yn y cyfnod pontio (cyn-ysgol i'r Meithrin, Cynradd i Uwchradd a darpariaeth Ôl-16) fel bod dysgwyr yn cynnal lefelau priodol o gynnydd<br>• Llai o angen am ddarpariaeth Sefydliadau Ôl-16 Arbennig Annibynnol (ISPI)<br>• Egwyddorion a darpariaeth ar gyfer dysgwyr ADY Ôl-16 yn Nhorfaen yn cael eu gweithredu. | Amser Swyddog<br><br>Cyllid Grant ADY |
| **Cam Gweithredu** | **Arweinydd** | **Cychwyn** | **Gorffen** |
| 2.3.1<br>Datblygu rhaglen Dysgu Proffesiynol ymatebol ar gyfer staff ysgolion i'w cyfarparu â'r wybodaeth a'r sgiliau i gefnogi dysgwyr ag ADY ac anghenion Cynhwysiant a Llesiant. | Pennaeth ADY, Cynhwysiant a Llesiant | Medi 26 | Mawrth 27 |
| 2.3.2<br>Gwella'r Strategaeth Addysgu a Dysgu drwy ddatblygu pecyn cymorth ymarfer cynhwysol, gan enghreifftio'r ddarpariaeth sydd ar gael yn gyffredinol ar draws Torfaen. | Pennaeth ADY, Cynhwysiant a Llesiant | Medi 26 | Mawrth 27 |

| Amcan 2 – Sicrhau darpariaeth arbenigol, wedi'i thargedu'n effeithiol ar gyfer dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol | | | |
|---|---|---|---|
| **Argymhelliad 4: Gwella arweinyddiaeth strategol dysgu ac ADY** | | | |
| | | | |
| **Strategaeth** | **Swyddog Arweiniol** | **Meini prawf llwyddiant / yr effaith a fwriedir** | **Adnoddau sydd eu hangen** |
| 2.4 Sicrhau gwerth am arian wrth ddyrannu a defnyddio cyllid ar gyfer ADY. | Pennaeth ADY, Cynhwysiant a Llesiant | • Rheolir y ddarpariaeth ADY o fewn y gyllideb ddirprwyedig y cytunwyd arni<br>• Gwariant cyfrannol is ar leoliadau arbenigol y tu allan i'r Sir<br>Rheolir cyllidebau a grantiau ysgolion unigol dirprwyedig yn effeithiol. | Amser Swyddog<br><br>Cyllid Grant ADY |
| **Cam Gweithredu** | **Arweinydd** | **Cychwyn** | **Gorffen** |
| 2.4.1<br>Adolygu effaith y newidiadau i fformwlâu ariannu ADY a Chanolfannau Adnoddau Dysgu prif ffrwd. | Pennaeth ADY, Cynhwysiant a Llesiant | Hydref 26 | Mawrth 27 |
| 2.4.2 Ymgorffori cylch blynyddol o sicrhau ansawdd a chomisiynu darparwyr amgen/arbenigol a ddefnyddir ar gyfer darpariaeth Addysg heblaw yn yr Ysgol (EOTAS) (ALl a darpariaeth amgen a gomisiynir gan ysgolion). | Pennaeth ADY, Cynhwysiant a Llesiant | Ebrill 26 | Mawrth 27 |

| **Amcan 3: Hyrwyddo llesiant dysgwyr a hwyluso ymgysylltu cymunedol** |
|---|
| **Argymhelliad Estyn: 1, 2, 3, 4** |
| **Cyswllt â'r Cynllun Sirol:**<br>Amcan Llesiant 1 - Byddwn yn codi cyrhaeddiad addysgol, gan helpu pobl ifanc ac oedolion i ennill y cymwysterau a'r sgiliau sydd eu hangen i fyw bywydau cadarnhaol<br>Amcan Llesiant 2 - Byddwn yn annog ac yn hyrwyddo plant, pobl ifanc a theuluoedd fel y gallant ffynnu<br>Amcan Llesiant 3 - Byddwn yn mynd i'r afael ag anghydraddoldeb trwy ganolbwyntio ar weithgareddau adnabod ac atal cynnar sy'n cefnogi pobl i fyw bywydau annibynnol a boddhaus<br>Amcan Llesiant 7 - Byddwn yn hyrwyddo ffyrdd iachach o fyw yn Nhorfaen i wella llesiant meddyliol a chorfforol<br>Amcan Llesiant 9 - Byddwn yn darparu gwasanaethau effeithlon sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid sy'n adlewyrchu'r ffordd y mae pobl yn byw eu bywydau ac yn dymuno cael mynediad at wasanaethau |

| **Datganiad Cyd-destun:** | **Arweinwyr Amcan:** |
|---|---|
| Er mwyn cefnogi'r gwaith o wella llesiant dysgwyr, atgyfnerthir y gwaith o integreiddio gwasanaethau plant a gwasanaethau addysg, a llais y dysgwr fydd yn llywio'r ddarpariaeth.<br><br>Mae datblygu strategaeth Llesiant ar y cyd i'r Gyfarwyddiaeth, sy'n cynnwys cryfhau rôl chwarae a gwasanaethau ieuenctid wrth hyrwyddo llesiant plant a phobl ifanc, yn flaenoriaeth i'r Gyfarwyddiaeth ar y cyd.<br><br>Yn ogystal â mynd i'r afael â materion a nodwyd drwy arolwg Y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion (SHRN), bydd y strategaeth Llesiant yn cefnogi gwelliannau yng nghyfraddau presenoldeb a | Cyfarwyddwr Strategol, Jason O'Brien<br>Cyfarwyddwr Addysg, Andrew Powles<br>Pennaeth Adnoddau a Chynllunio, John Tushingham<br>Pennaeth ADY, Cynhwysiant a Llesiant, Claire Williams<br>Pennaeth Dysgu a Chyflawniad, Andy Rothwell<br><br>**Person Cefnogi**<br>Swyddog Gwerthuso a Gwella, Jess Gabriel<br><br>**Tystiolaeth:**<br>• Agendâu a phwyntiau gweithredu cyfarfodydd Tîm Arwain Gweithredol a Thîm Arwain Gweithredol Estynedig bob hanner tymor<br>• Cyfarfodydd Monitro Misol Partneriaeth Grŵp Gwella Parhaus (GGP) gyda'r ALl a Gwasanaeth Gwella Ysgolion yr ALl<br>• Cofnodion a chanlyniadau Cyfarfodydd Grŵp Ehangach<br>• Adroddiadau effaith tymhorol y Gwasanaeth Gwella Ysgolion |

| | |
|---|---|
| gwaharddiadau dysgwyr yn ysgolion Torfaen, nad ydynt ar hyn o bryd yn unol â lefelau cyn y pandemig. | • Canlyniadau arolygiad (wrth iddynt ddod ar gael) o'u cymharu ag adroddiadau cyn-arolygiad y Gwasanaeth Gwella Ysgolion / yr ALl<br>• Cerdyn Sgorio Cytbwys Arweinyddiaeth Gorfforaethol – adroddiad Y Gwasanaeth Addysg. |

**Amcan 3: Hyrwyddo llesiant dysgwyr a hwyluso ymgysylltu cymunedol**

**Argymhelliad Estyn: 1, 2, 3, 4**

**Cyswllt â'r Cynllun Sirol:**
Amcan Llesiant 1 - Byddwn yn codi cyrhaeddiad addysgol, gan helpu pobl ifanc ac oedolion i ennill y cymwysterau a'r sgiliau sydd eu hangen i fyw bywydau cadarnhaol
Amcan Llesiant 2 - Byddwn yn annog ac yn hyrwyddo plant, pobl ifanc a theuluoedd fel y gallant ffynnu
Amcan Llesiant 3 - Byddwn yn mynd i'r afael ag anghydraddoldeb trwy ganolbwyntio ar weithgareddau adnabod ac atal cynnar sy'n cefnogi pobl i fyw bywydau annibynnol a boddhaus
Amcan Llesiant 7 - Byddwn yn hyrwyddo ffyrdd iachach o fyw yn Nhorfaen i wella llesiant meddyliol a chorfforol
Amcan Llesiant 9 - Byddwn yn darparu gwasanaethau effeithlon sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid sy'n adlewyrchu'r ffordd y mae pobl yn byw eu bywydau ac yn dymuno cael mynediad at wasanaethau

**Cyswllt â Chynlluniau Tîm:**

- Diogelu
- Gwasanaeth Ieuenctid
- Gwasanaeth Chwarae
- ADY/ Cynllun Tîm  Seicoleg Addysg
- Gwasanaeth Lles Addysg
- Pennaeth Dysgu a Chyflawniad – Cynllun Gwella Ysgol
- Cynllun Tîm Y Blynyddoedd Cynnar

| **Strategaeth** | **Swyddog Arweiniol** | **Meini prawf llwyddiant / yr effaith a fwriedir** | **Adnoddau sydd eu hangen** |
|---|---|---|---|

| **Amcan 3: Hyrwyddo llesiant dysgwyr a hwyluso ymgysylltu cymunedol** | | | |
|---|---|---|---|
| **Argymhelliad Estyn: 1, 2, 3, 4** | | | |
| 3.1<br>Hyrwyddo arferion presenoldeb a chynhwysiant i gynyddu presenoldeb a lleihau gwaharddiadau. | Pennaeth ADY, Cynhwysiant a Llesiant Pennaeth Dysgu a Chyflawniad | • Mae cyfraddau presenoldeb a gwaharddiadau ym mhob ysgol yn dychwelyd i lefelau cyn-bandemig, gan gynnwys gostyngiad yng nghyfradd absenoldeb parhaus<br>• Nid yw dysgwyr dan anfantais ac agored i niwed yn cael eu hadlewyrchu'n anghymesur mewn absenoldebau o ysgolion/gwaharddiadau<br>• Mae cyfraddau Addysg Ddewisol yn y Cartref (EHE) yn unol â chyfartaledd Cymru<br>• Mae nifer yr ysgolion sy'n cyflawni cyfraddau presenoldeb cyn-bandemig yn cynyddu<br>• Bydd gan 100% o ddisgyblion Plant sy'n Derbyn Gofal Gynllun Addysg Personol (CAP) gweithredol.<br>• Bydd adolygiadau Cynllun Addysg Personol yn digwydd yn unol ag Adolygiadau Plant sy'n Derbyn Gofal (bob 6 mis) o Dachwedd 26 ymlaen. | Amser Swyddog<br><br>Costau ymgyrch #NIMO (Ddim Yma Colli Allan) |
| **Cam Gweithredu** | **Arweinydd** | **Cychwyn** | **Gorffen** |
